

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 16.11.18

ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR I'R RHINIENI – GOVERNORS' REPORT TO PARENTS.

Gobeithio i chi gyd gael cyfle i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol anfonwyd atoch yr wythnos diwethaf. Gan na fu i unrhyw riant nodi eu bod am gynnal cyfarfod i drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r ysgol, fe'ch hysbysir na chynhelir cyfarfod eto eleni.

It is hoped that you had an opportunity to read the Annual Report sent to you last week. As no parent expressed a wish to hold a meeting to discuss any matter regarding the school, you are informed that no meeting will be held again this year.

GALA NOFIO'R URDD SWIMMING GALA.

Addewais yn y Cylchlythyr diwethaf, y byddwn yn eich hysbysu o ganlyniadau'r ysgol yng ngala nofio'r Urdd, yr wythnos hon. Mae'n bleser eich hysbysu bod yr ysgol wedi dod yn fuddugol mewn pump cystadleuaeth, sy'n eu galluogi i gystadlu yn y gala genedlaethol yng Nghaerdydd ddiwedd Ionawr 2019. Y cystadlaethau hynny fydd y canlynol:

Râs Gyfnewid Amrywiol – Merched Bl. 3 a 4 – *Years 3 & 4 Girls Mixed Relay.*

Râs Gyfnewid Rhydd – Merched Bl. 3 a 4 – *Years 3 & 4 Girls Freestyle Relay.*

Râs Gyfnewid Rhydd – Bechgyn Bl. 3 a 4 – *Years 3 & 4 Boys Freestyle Relay.*

Oliver – Pili Pala Bechgyn Bl 5 & 6 – *Years 5 & 6 Boys Butterfly race.*

Lewis – Pili Pala Bechgyn Bl. 3 a 4 – *Years 3 & 4 Boys Butterfly race.*

Enillwyd saith ail gwobr sef Cyfnewid cymysg, amrywiol a rhydd Bechgyn Bl 5 & 6, Mabli – Rhydd merched Bl. 5 a 6, Molly – Rhydd merched Bl. 3 & 4, Sarah – Pili Pala Merched Bl. 3 & 4, Taidgh – Cefn Bechgyn Bl. 3 & 4, ac enillodd Lola y drydedd wobwr am râs Pili Pala merched Bl. 5 a 6.

Llongyfarchiadau calonnog i'r enillwyr i gyd, a'r holl rai aeth i gynrychioli'r ysgol mor deilwng yn y gala.

I promised in last week's newsletter that I would inform you of the school's results at the Urdd swimming gala, this week. It gives me great pleasure to inform you that school were winners in five competitions, which will enable them to go forward to the national gala to be held in Cardiff at the end of January 2019. Those competitions are listed above.

Seven second prizes were also won, which were the miscellaneous, mixed, and freestyle Years 5 & 6 relays, Mabli – Years 5 & 6 freestyle, Molly – Years 3 & 4 freestyle, Sarah – Years

3 & 4 butterfly, Taidgh – Years 3 & 4 boys backstroke, and Lola won third place in the Years 5 & 6 butterfly race.

Many congratulations to the prize winners and all those who represented the school in such a worthy way.

WYTHNOS GWRTH FWLIO – ANTI BULLYING WEEK.

Mwynhaodd y disgyblion ddod i'r ysgol mewn sanau nad oedd yn bâr yr wythnos yma – ond yr hyn sydd bwysicaf yw bod pawb yn deall y neges tu ôl i hynny, nid yn unig yn ystod yr Wythnos Wrth fwlio swyddogol.

The pupils enjoyed coming to school wearing socks that were not a pair this week – but the main point is that everyone understood the message, not only during the official Anti Bullying Week.

GWISG YSGOL – SCHOOL UNIFORM

Mae'n achosi pryder i ni bod rhai disgyblion ddim yn gwisgo siwmpwr/crys chwys gwyrdd tywyll neu un swyddogol yr ysgol, trowsus/sgert ddu neu lwyd a chrys polo coch yn gyson. Sylweddolir bod rhesymau dilys dros hynny weithiau, ond o hyn ymlaen, gofynnir i bawb sicrhau eu bod yn gwneud ymdrech wirioneddol i wisgo gwisg yr ysgol yn ddyddiol. Fe'ch hatgoffir bod cyflenwad o eitemau o wisg ysgol ail law mewn cyflwr da ar gael am £1 yr eitem i'w prynu yn yr ysgol unrhyw amser.

O fis Ionawr 2019 ymlaen, gofynnwn ar i bob disgybl wisgo esgidiau neu rai ymarfer du yn unig i ddod i'r ysgol os gwelwch yn dda.

It causes us concern that there are some pupils who do not regularly wear a bottle green sweatshirt/jumper or the school's official one, grey/black skirt/trousers and red polo shirt. We realise sometimes that there are valid reasons for this, but from now on, everyone is asked to make a genuine effort to wear the school's uniform daily. You are reminded that there is a supply of second hand school uniform items in good condition available for £1 per item to buy from school at all times.

As from January 2019 onwards, we ask that every pupil wears a pair of black shoes or trainers only to come to school please.

GŴYL BÊL DROED YSGOLION CYMRAEG SIR Y FFLINT – FLINTSHIRE WELSH SCHOOLS FOOTBALL FESTIVAL.

Daeth cynrychiolaeth o holl ysgolion Cymraeg y sir ynghyd i fwynhau Gŵyl Bêl droed hwyliog yng nghwmni'i gilydd bnawn Mercher. Fe'i trefnwyd gan Mr Gareth Jones, a bu i bawb gymerodd ran fwynhau y gêmiau ynghyd â'r cyfle gwych i gymdeithasu gyda disgyblion o ysgolion Cymraeg eraill y sir.

Teams from the county's Welsh medium schools came together on Wednesday afternoon to enjoy a Football Festival organised by Mr Gareth Jones. Everyone very much enjoyed the activity, and all who participated had a wonderful opportunity to play football and socialise with pupils from the other Welsh medium schools at the same time.

FFAIR LYFRAU SCHOLASTICS BOOK FAIR.

Mae Ffair Lyfrau Scholastics wedi dechrau, ac i weld yn mynd yn dda iawn. Cofiwch bod creoso i chi ddod i mewn ar ddiwedd y dydd bob un diwrnod hyd at ddydd Mercher nesaf, Tachwedd 21ain. hyd at 5 p.m. Trwy gyfrwng y gwerthiant, gallwn dderbyn cyflenwad o lyfrau newydd i lyfrgell yr ysgol. Diolchir i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth i'r ymgyrch hon eleni eto.

The Scholastics Book Fair has begun, and seems to be going well. You are welcomed to come in at the end of every school day up to 5 p.m. to see the books, and purchase any, if you so wish, up to next Wednesday, November 21st. You are thanked before hand for your support again this year.

PRYDLONDEB – PUNCTUALITY.

Rhaid yw eich hatgoffa o'r nodyn anfonwyd allan yn ystod yr wythnos, gan fod yna rai, yn anffodus, sy'n parhau i gyrraedd yn hwyr i'r ysgol. Mae'r ysgol yn dechrau am 8.50 a.m. yn brydlon. Os y gwelir bod hyn yn parhau yn broblem gyda rhai, ni fydd dewis gan yr ysgol ond i drosglwyddo'r mater i ddwylo Swyddog Cynhwysiant yr ysgol.

We remind you of the note sent out this week emphasising the importance of punctuality in school in the mornings, but there are some who continue to be late. School starts at 8.50 a.m. promptly. If we find that non punctuality continues to be a problem with some, we will have no choice other than to transfer the information to the school's Inclusion Officer.

FFAIR NADOLIG YR YSGOL – CHRISTMAS FAYRE.

Derbynioch ohebiaeth yn ystod yr wythnos yn gofyn am gyfraniadau tuag at y Ffair Nadolig a gynhelir ddydd Mercher, Tachwedd 28ain. o 3- 5 p.m. Mawr obeithir y cawn Ffair lwyddiannus ac y gall pawb gefnogi'r ymgyrch hon, gan mai hwn yw un o'r prif ddigwyddiadau codi arian a drefnir gan bwyllgor Ffrindiau Glanrafon. Edrychir ymlaen at eich gweld ar y diwrnod.

You received correspondence during the week asking for contributions towards the Christmas Fayre which is to be held on Wednesday, November 28th. from 3-5 p.m. It is sincerely hoped that we have a successful Fayre and that everyone can come to support, as this is the main event organised to raise money for the school by the Friends committee. We look forward to your company on the day.

PLANT MEWN ANGEN – CHILDREN IN NEED.

Bu ymgyrch Pawen Lawen yn hynod o boblogaidd yn yr ysgol fel modd i godi arian tuag at Blant mewn Angen eleni. Diolchir i chi eto am eich cefnogaeth yn sicrhau bod y pawennau'n cael eu gorchuddio ag arian mân. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol wrthi'n brysur yn cyfrif yr holl arian mân, a hyd yma, mae £952 wedi'i gasglu sy'n eithriadol o dda.

The 'Happy Paw' has been extremely popular in school as a way of raising money towards Children in Need this year. You are thanked again for your support in ensuring that the paws are covered with loose change. The School's Council members are busy counting all the loose change, and up to now, £952 has been raised, which is exceptionally good.

EISTEDDFOD TREUDDYN EISTEDDFOD.

Bydd nifer dda o'n disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod Treuddyn fory, ddydd Sadwrn, Tachwedd 17eg. Dymunwn y gorau i bob un ohonynt ar gyfer y gwahanol gystadlaethau unigol. Mae'r rhai fydd yn cymryd rhan eisoes wedi derbyn copi o Raglen y Dydd, ond os yr hoffai unrhyw un dderbyn gwybodaeth pellach, mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol yn ystod y dydd heddiw.

A large number of our pupils will be competing at Treuddyn Eisteddfod tomorrow, Saturday, November 17th. We wish them all the very best in the various individual competitions. All those who will be competing have already received a copy of the day's programme, but if anyone would like to receive further information, you are welcomed to contact school during the day today.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.

- 17.11.18** Eisteddfod Treuddyn *Eisteddfod.*
- 21.11.18** Cyfle olaf i brynu llyfrau o Ffair Scholastics – *Last date to purchase books from the Scholastics Fair.*
- 23.11.18** Recordio Carol yr Ŵyl yn Eglwys y Santes Fair yn Yr Wyddgrug – *Recording of the Festival Carol at St Mary's Church in Mold.*
- 23.11.18** Dyddiad cau i gofrestru disgyblion ar gyfer y Derbyn ym Medi 2019 – *Closing date for registering pupils for the Reception class in September 2019.*

BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S MENU -

WYTHNOS/WEEK 1